Polisi ar Ddefnyddio Gwefannau Cyfryngau Ffrydio mewn Ysgolion

Polisi Defnyddio Cyfryngau Ffrydio

PWYSIG. NODER:
Bwriedir defnyddio'r Polisi Defnyddio Cyfryngau Ffrydio ochr yn ochr â Pholisïau Defnydd TGCh Derbyniol / Diogelwch TG ysgolion. Gellir ei gynnwys fel rhan o'r prif bolisi, neu fel atodiad i bolisi priodol, os dymuna corff llywodraethu hynny.

Lluniwyd y polisi hwn gan yr Awdurdod Lleol (ALl) ac argymhellir i gyrff llywodraethu ei fabwysiadu. Ni ellir cynnig cymorth i ysgolion wrth reoli materion sy'n ymwneud â phwnc y polisi hwn oni fabwysiadwyd polisïau a gweithdrefnau'r AALl a'u bod yn unol ag unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Gwasanaethau Addysg a allai fod yn weithredol ar yr adeg honno.

Amlinelliad o'r Ddogfen

'Ffrydio' yw'r dull a ddefnyddir i gyflwyno cynnwys cyfryngol, fel arfer fideo a sain, i ddefnyddwyr terfynol. Caiff y cyfrwng ei gadw ar un cyfrifiadur neu weinydd a, thrwy'r Rhyngrwyd, ei chwarae ar un arall. Nid yw cyfryngau ffrydio yn cael eu lawrlwytho a'u cadw ar gyfrifiadur; cânt eu defnyddio ar alw ar wefan. Mae YouTube yn enghraifft boblogaidd o wefan cyfryngau ffrydio.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn cydnabod y gellir cyfoethogi addysgu drwy ddefnyddio cyfryngau ffrydio yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau wedi'u nodi sy'n gysylltiedig â'r math hwn o gynnwys.

Bwriad y ddogfen hon yw amlygu'r risgiau hyn a rhoi canllawiau ar ddefnyddio cyfryngau ffrydio yn yr ysgol mewn modd diogel a chyfrifol. Nid yw'r ddogfen hon yn gynhwysfawr a dylid ei dilyn yn unol â pholisïau perthnasol eraill a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethu'r ysgol.

Ceidw'r Cyngor a'r Corff Llywodraethu yr hawl i ddiwygio'r polisi hwn yn ôl eu disgresiwn. Os oes diwygiadau, caiff staff wybod yn briodol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithwyr ac asiantau yn yr Ysgol.

Cyd-destun

Mae ystod eang o gyfryngau ffrydio ar gael ar y rhyngrwyd ac mae athrawon yn ymwybodol o fanteision ymgorffori'r adnoddau hyn yn eu haddysgu. Fodd bynnag, oherwydd natur ddeinamig y Rhyngrwyd, mae risgiau ynghlwm wrth y math hwn o gyfrwng, lle caiff cynnwys ei lanlwytho gan y cyhoedd heb fawr reolaeth. O ganlyniad, mae problemau'n gysylltiedig â dilysrwydd y cynnwys, hawlfraint bosibl a materion cyfreithiol eraill, yn ogystal â pha mor briodol ydyw i'r gynulleidfa darged.

Oherwydd y risgiau hyn, dim ond staff addysgu y bydd CBSC yn eu galluogi i ddefnyddio'r gwefannau hyn, a bydd yn atal myfyrwyr rhag gwneud hynny.

Polisi ar Ddefnyddio Gwefannau Cyfryngau Ffrydio mewn Ysgolion

Canllawiau

Fel aelod o staff sy'n defnyddio cyfryngau ffrydio yn yr ystafell ddosbarth bydd disgwyl i chi gydymffurfio â'r canllawiau canlynol:

Defnydd Derbyniol

Prif ddiben defnyddio cyfryngau ffrydio yw gwella addysgu a dysgu yn yr ysgol. Ni ellir defnyddio Cyfryngau Ffrydio ond at ddibenion addysgu cyfreithiol. Gwaherddir defnydd personol.

Dylid gwylio'r cynnwys cyfryngol o'r dechrau i'r diwedd a gwneud asesiad llawn o ba mor addas ydyw i'r gynulleidfa darged. Dylid ystyried y cynnwys yn yr un modd ag y byddech yn ystyried unrhyw adnoddau eraill a ddefnyddiwyd yn eich ystafell ddosbarth.

Rhaid asesu'r cynnwys i ffwrdd o'r disgyblion, mewn ystafell staff neu rywle tebyg os oes modd. Mae nifer o gyfrifiaduron ystafell ddosbarth wedi'u cysylltu â byrddau gwyn rhyngweithiol a thaflunwyr, ac mae'n bosibl eu bod wedi'u cysylltu â'i gilydd. Rhaid ystyried hyn wrth adolygu cynnwys.

Pan ystyrir bod adnodd yn dderbyniol i'w ddefnyddio, argymhellir iddo gael ei lawrlwytho a'i gadw i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd hyn yn atal unrhyw broblemau os caiff y cynnwys ei ddileu neu ei newid. Mae angen adnoddau gwahanol i lawrlwytho cyfryngau ffrydio i gyfrifiaduron, ac mae enghreifftiau ar gael ar y we.

Os nad oes modd lawrlwytho'r adnodd, dylid gwylio'r fideo cyn ei ddefnyddio bob tro, i sicrhau ei fod yn addas at y diben o hyd.

Defnydd Annerbyniol

Mae'n amhriodol gweld, creu, defnyddio, lawrlwytho neu gyhoeddi'r mathau canlynol o ddeunydd:

- Pornograffig neu ar gyfer Oedolion
- Hiliol neu sarhaus
- Anllad
- Bwlio
- Treisgar
- Twyllodrus
- Yn debygol o achosi rhywun i gael ei aflonyddu
- Cyfrinachol
- Yn niweidiol i fuddiannau'r ysgol neu'r Cyngor
- Amherthnasol i fusnes yr ysgol neu'r Cyngor
- Yn debygol o gythruddo neu wastraffu amser eraill
- Yn debygol o dorri hawlfraint

Polisi ar Ddefnyddio Gwefannau Cyfryngau Ffrydio mewn Ysgolion

Derbynnir wrth addysgu rhai pynciau y gallai fod angen defnyddio adnoddau a allai fod yn un neu fwy o'r categorïau uchod. Mewn sefyllfaoedd o'r fath disgwylir i'r pwnc gael ei gyflwyno mewn cyd-destun; mewn ffordd sensitif, gytbwys fel sy'n briodol i oedran y gynulleidfa darged. Disgwylir i unrhyw gontractau cartref / ysgol ar grefydd, addysg ryw, dymuniadau'r rhieni ac ati gael eu hystyried wrth ddewis cynnwys cyfryngol.

Risgiau Cyfreithiol

Os byddwch yn gwylio, creu, defnyddio, lawrlwytho neu'n cyhoeddi deunydd pornograffig, enllibus, difenwol, sarhaus, hiliol neu anllad, gall yr ysgol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael eu dwyn i gyfrif.

Os byddwch yn gweld, creu, defnyddio, lawrlwytho neu'n cyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol yn anghyfreithlon, gall yr ysgol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael eu dwyn i gyfrif.

Os byddwch yn gweld, creu, defnyddio, lawrlwytho neu'n cyhoeddi gwybodaeth sydd â hawlfraint arno yn anghyfreithlon neu heb ganiatâd, gall yr ysgol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael eu dwyn i gyfrif am dorri hawlfraint.

Cwestiynau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y Polisi Rhyngrwyd hwn cysylltwch â'r Corff Llywodraethu, y Pennaeth neu'r Ddesg Gymorth TG. Os nad oes gennych unrhyw gwestiynau, rhagdybir eich bod yn deall rheolau a chanllawiau'r Polisi Rhyngrwyd hwn, eich bod yn ymwybodol ohonynt, ac y byddwch yn cydymffurfio â hwy.

Cytunaf i'r polisi uchod ar ddefnyddio gwefannau cyfryngau ffrydio mewn ysgolion:

Enw: _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____